

Datganiad Cenhadaeth:

Byddwch Bopeth Gallwch Fod.

Gweledigaeth Ysgol:

Ein **gweledigaeth** yn **Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn** yw meithrin, ysbrydoli, cefnogi a herio ein holl ddisgyblion gan ddefnyddio profiadau dysgu pleserus, ystyrlon ac amrywiol. Gwneir hyn er mwyn iddynt ddod yn ddysgwyr gydol oes sy'n cyrraedd eu llawn botensial mewn byd sy'n newid yn barhaus.


Mae cymuned ein hysgol yn **deulu** sy'n cynnwys plant, rhieni, llywodraethwyr, athrawon a'r gymuned. Rydym yn cydweithio i greu amgylchedd cynhwysol, amrywiol a meithringar lle mae lles a hapusrwydd pob plentyn yn ein gofal wrth wraidd popeth a wnawn.

Gwneir hyn yng nghyd-destun ein cymuned leol (ein **Cynefin**) a'n lle ni o fewn Cymru a'r byd ehangach. Ein nod yw **gwreiddio arferion da yn natblygiad moesol, cymdeithasol ac emosiynol ein plant.**

Crëir hyn drwy'r Cwricwlwm i Gymru a'i bedwar diben. Bod ein plant yn dod yn:

- **Dysgwyr Uchelgeisiol a Galluog.**
- **Cyfranwyr Mentrus a Chreadigol.**
- **Dinasyddion Cymru a'r Byd â gwybodaeth foesegol.**
- **Unigolion iach a hyderus**

Casglwyd y geiriau hyn gan gymuned yr ysgol a'i gosod yn arwyddlun ein hysgol - coeden. **"O fes bychain daw'r dderwen nerthol"**.



Caiff rhain eu rhagamcanu yn yr ysgol trwy ein **gwerthoedd craidd**.

- Meithrin a hybu iechyd a lles yr holl ddisgyblion a staff mewn amgylchedd diogel, cefnogol ac ysgogol.
- Ymgysylltu'n llawn ac yn gyfrifol fel dinasyddion gweithgar a pharchus o gymuned leol, genedlaethol a byd-eang gynhwysol.
- Annog sgiliau creadigol, beirniadol a chydweithredol, gan groesawu heriau a dathlu cyflawniadau'r holl ddisgyblion a staff.

- Sefydlu cymuned ddysgu lle mae'r holl ddisgyblion a staff yn hyderus i fynegi syniadau, cymryd risgiau a myfyrio, wrth gaffael gwybodaeth a sgiliau newydd i herio eu hunain i gyrraedd y safonau uchaf.

Mae'r weledigaeth a'n gwerthoedd craidd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan gymuned ein hysgol i fod yn ymatebol a hyblyg mewn byd sy'n newid yn barhaus.

Mae'r holl randdeiliaid wedi cael cyfle i ddiffinio Gweledigaeth yr Ysgol, gwerthoedd craidd a'n cwricwlwm trwy drafodaeth a holiaduron a fydd yn parhau. (Plant, Rhieni / Gofalwyr, Llywodraethwyr, Staff ac asiantaethau allanol). Mae hyn wedi arwain at staff yn gweithio ochr yn ochr ag ymarferwyr Dysgu ar y Cyd i greu set o themâu i fodloni gofynion pob Maes Dysgu a Phrofiad gan fod yn ymwybodol mai pedwar diben y cwricwlwm yw sylfaen ein hymagwedd thematig a phob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Mae Staff a Dysgu ar y Cyd wedi mapio'r themâu yn ofalus i ddarparu cwricwlwm cytbwys sy'n esblygu'n barhaus. Mae dilyniant ac asesu dysgwyr wedi'u targedu'n ofalus gan ystyried anghenion ein dysgwyr. Gellir gweld hyn wrth i ddisgyblion symud ymlaen drwy'r ysgol o Gam Cynnydd 1 -3 a thu hwnt i'n hysgol gyfun bartner. Bydd hyn yn cael ei gefnogi trwy ein defnydd o Taith 360 fel modd o asesu dilyniant ynghyd â'r sgiliau a'r wybodaeth a enillwyd gan y plant. Mae pob agwedd ar y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan gymryd barn yr holl randdeiliaid am ein taith barhaus gyda'r Cwricwlwm i Gymru.